Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Dolwen**

**Dolwen**
**Ffordd Rhuthun**
**Dinbych**
**LL16 3ER**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_
28 Chwefror 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Dolwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Mehefin 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn anogaeth a chefnogaeth gadarnhaol. Darperir gweithgareddau ar gyfer y bobl, yn ôl eu dymuniad. Mae nifer o ddewisiadau ar gael iddynt gymryd rhan ynddynt, o fewn eu trefn ddyddiol. Mae gan reolwyr oruchwyliaeth effeithiol dros ansawdd y gofal a chymerant gamau prydlon a phriodol pan fo angen. Mae ystafelloedd gwely'r bobl a'r mannau cymunol yn lân, yn gartrefol ac yn eang.

## Llesiant

Roedd y bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn fodlon. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal, sy'n sylwgar ac yn garedig. Mae cynlluniau personol y bobl yn cael eu cynllunio ar sail eu hoffterau a'u hanghenion. Mae’r staff gofal yn cynorthwyo’r bobl â'u trefn ddyddiol. Mae’r tîm rheoli yn cydweithio'n dda i oruchwylio a monitro’r gofal. Mae'r amgylchedd yn eang, yn cael digon o awyr ac yn ddiogel.

Mae llesiant y bobl yn flaenoriaeth. Gwelsom nifer o’r staff gofal iechyd yn ymweld â phobl ac yn cyfathrebu â staff gofal am anghenion iechyd pobl. Mae'r staff gofal yn gefnogol, yn garedig ac yn galonogol. Mae’r tîm rheoli yn cymryd camau priodol i sicrhau bod llesiant y bobl yn cael ei gynnal. Mae'r amgylchedd yn olau, gyda digon o le ac yn lân.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i amddiffyn pobl rhag y risg o niwed ac esgeulustod. Mae cynlluniau personol yn cael eu diweddaru a'u monitro'n rheolaidd; mae asesiadau risg ar waith lle bo angen. Mae’r staff gofal yn mynychu hyfforddiant diogelu. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith, y gall y staff gofal eu cyrchu.

Mae’r bobl yn gyfforddus ac yn fodlon yn eu hamgylchedd. Gall y bobl ddewis sut a lle i dreulio eu hamser. Gwelsom staff gofal yn cynorthwyo’r bobl i fynd i le bynnag a gwneud beth bynnag y dewisant. Gwelsom arferion rheoli heintiau effeithiol gan y staff gofal. Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân a bod eitemau i helpu i reoli heintiau wedi'u lleoli'n ddiogel ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn gyfredol ag anghenion gofal y bobl; roedd y sampl o gynlluniau personol a welsom yn fanwl ac yn adlewyrchu anghenion. Mae'r rhain wedi'u hysgrifennu'n glir a'u cyflwyno'n daclus. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn. Dywedodd un unigolyn wrthym eu bod yn mwynhau byw yno; dywedasant wrthym am yr hyn y maent yn hoffi ei wneud o fewn eu trefn ddyddiol a dangosant i ni lle mae'n well ganddynt dreulio'u hamser. Gwelsom fod cynlluniau'r bobl yn cael eu monitro a'u newid yn unol â ph'un a yw'r anghenion gofal yn newid. Gwelsom hefyd fod ffeiliau gofal yn cael eu gwirio o fewn rhaglen fonitro'r gwasanaeth.

Mae gan y bobl fynediad at ofal iechyd, o fewn y gwasanaeth a'r tu allan iddo. Gwelsom weithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â phobl drwy gydol y dydd. Roedd ffeiliau gofal yn dangos bod pobl yn cael eu cynorthwyo i fynychu apwyntiadau gofal y tu allan i'r gwasanaeth. Roedd ffeiliau gofal yn cynnwys gwybodaeth ac yn cofnodi cyfathrebu ag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol; roedd y rhain yn cynnwys meddyg teulu, nyrsys ardal, ciropodydd, deintydd, cyngor deietegydd ac eraill. Buom yn siarad â gweithwyr iechyd proffesiynol, a ddywedasant wrthym fod y gofal y mae pobl yn ei dderbyn yn dda; fodd bynnag, mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Gwelsom staff gofal yn ymarfer arferion rheoli heintiau diogel trwy gydol y dydd; gwelsom staff gofal yn gwisgo, yn defnyddio ac yn cael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn briodol. Gwelsom fod rheoli heintiau yn cael ei fonitro a'i adolygu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y rhaglen hyfforddi. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn hygyrch i'r staff gofal. Gwelsom nifer o orsafoedd cyfarpar diogelu personol, mewn mannau hygyrch amrywiol o fewn y gwasanaeth. Mae arferion glanhau a hylendid da ar waith.

Rheolir meddyginiaeth yn ddiogel. Gwelsom fod y gweithdrefnau'n gyfredol ac yn hygyrch i'r staff gofal. Gwelsom fod yr ardal feddyginiaeth dan glo, yn drefnus ac yn ddiogel. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus o ran rhoi meddyginiaeth a phrosesau meddyginiaeth. Mae ffeiliau'r staff gofal yn dangos bod y staff gofal wedi'u hyfforddi i roi meddyginiaeth. Mae'r tîm rheoli yn cymryd camau priodol, yn unol â pholisi'r gwasanaeth, os bydd gwallau ynghylch meddyginiaeth yn digwydd. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel.

## Yr amgylchedd

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac yn saff. Gwelsom fod sawl man cymunol i bobl dreulio amser. Gwelsom bobl yn eistedd gyda'i gilydd mewn gwahanol ardaloedd o'r gwasanaeth. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn lân ac yn daclus ac mae gan y bobl eu heiddo personol, fel addurniadau, lluniau a rhai dodrefn, o'u cwmpas. Mae dodrefn trwm wedi'u diogelu. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i bobl; mae'r rhain yn cynnwys gemau, a gweithgareddau ysgogi gweledol, sydd er budd pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod gwiriadau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal, gan gynnwys gwiriadau tymheredd a haint a diheintio dwylo. Gwelsom fod ardaloedd cymunol yn ddiogel ac yn cael eu monitro. Mae ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, yn lliwgar ac yn llachar. Mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos fod gwaith monitro a gwirio tân a golau yn cael eu cynnal. Mae'r ystafell feddyginiaeth dan glo, yn ogystal â'r storfa ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH). Gwelsom fod driliau tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae cymhorthion symudedd a theclynnau codi yn cael eu glanhau a'u gwirio. Mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng wedi'u cofnodi'n glir ac yn hygyrch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi ansawdd y gofal. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae’r staff gofal yn mynychu'r hyfforddiant gofynnol, a bwriedir cynyddu hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn cefnogi'r hyfforddiant hwn, yn hygyrch i staff gofal ac yn gyfredol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli, a cheir tystiolaeth o hyn mewn cofnodion goruchwylio. Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol.

Mae systemau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal. Fodd bynnag, gwelsom fod hwn yn faes y mae angen ei gryfhau, o ran goruchwylio a monitro gofal. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr; er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Gwelsom dystiolaeth o adborth cadarnhaol a gasglwyd gan y tîm rheoli, gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld. Ni fu unrhyw gwynion i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf ac fe wnaethom adolygu nifer o ganmoliaethau a chardiau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth.

Mae’r lefelau staffio yn ddigonol ac roedd hyn yn amlwg pan wnaethom ymweld â'r gwasanaeth. Gwnaethom adolygu rotâu staff, a oedd yn dangos bod lefelau staffio digonol yn cael eu cynnal. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi bod yn heriol ac wedi cael effaith ar lefelau staffio. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod lefelau staffio yn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau gofalu yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl staff yn cael eu recriwtio a'u sefydlu'n ddiogel. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio a'u hyfforddi'n rheolaidd. Roedd y matrics hyfforddi yn tystio i hyn.

Mae'r darparwr yn effeithlon wrth hysbysu asiantaethau rheoleiddio gan gynnwys yr awdurdod lleol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Gwnaethom gydnabod bod y darparwr wedi wynebu rhai problemau technegol, sydd bellach wedi'u datrys. Rydym yn gweld bod cyfathrebu yn agored ac yn dryloyw.